



Llwybr Deiniol


Addoli, Tyfu a Charu
yng Ngras Duw

St Deiniol's Way

Worshipping,
Growing and Loving
in the Grace of God



Esgobaeth
Bangor
The Diocese
of Bangor





Esgobaeth
Bangor
The Diocese
of Bangor

Rydym yn croesawu adborth am y deunydd hwn. Cysylltwch â ni drwy ebostio bangor@eglwysyngnghymru.org.uk neu drwy ysgrifennu atom yn **Nhŷ Deiniol, Clos y Gadeirlan, Bangor, Gwynedd LL57 1RL.**

Daw'r dyfyniadau ysgrythurol o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig. Mae gweddill y testun, gan gynnwys y gweddïau a'r addasiadau o'r Beibl, wedi'i ysgrifennu gan Janet Fletcher, a'i olygu â chymorth Allan Wilcox.

Hawlfraint © Bwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor 2016

We welcome all feedback about this material. Please contact us at bangor@churchinwales.org.uk or **Tŷ Deiniol, Cathedral Close, Bangor, Gwynedd LL57 1RL.**

The biblical extracts are from the New Revised Standard Version of the Bible.

All other writing, including prayers and adaptations of the Bible, is by Janet Fletcher, with editorial assistance from Allan Wilcox.

Copyright © Bangor Diocesan Board of Finance 2016

Cynnwys

Contents

4

Cyflwyniad i Lwybr Deiniol
Introduction to St Deiniol's Way

20

Ymrwymo i Lwybr Deiniol
Committing to St Deiniol's Way

50

Gweddïau Dyddiol Llwybr Deiniol
The Daily Prayers of St Deiniol's Way

Rhagair Foreword



Pleser o'r mwyaf yw i mi gymeradwyo Llwybr Deiniol i'r esgobaeth. Ei nod yw cynnig fframwaith y gallwn ninnau fel disgyblion ymwreiddio o'i fewn mewn gweddi, gan dyfu mewn ffydd, a thystio i gariad Duw at y greadigaeth gyfan.

Mae'n seiliedig ar fyfyrddod aeddfed, gan gynnwys ar rai o'r rheolau bywyd clasurol megis rheol Bened Sant, ond hefyd draddodiadau a ffynonellau Celtaidd a Chymreig. Fy ngobaith yw y bydd yn ein galluogi a'n herio i deithio ymhellach gyda Duw, ac i ddeall natur cymuned sy'n dysgu ac ymddwyn felly. Fe'i cyflwynaf i chi gyda diolch i Dduw, yr hwn yw, yng Nghrist Iesu, ein Llwybr, y Gwirionedd a'r Bywyd.

I am delighted to commend St Deiniol's Way to the diocese. It seeks to provide a framework within which we as disciples can be rooted in prayer, grow in faith, and witness to God's love for the whole creation.

It is the work of mature reflection, drawing on some of the classic disciplines such as the Benedictine rule, and drawing too on distinctively Celtic and Welsh sources and traditions. My hope is that it will enable and challenge us to go further with God, and to understand and practise what a learning community looks like. I offer it to you with thanks to God, who, in Christ Jesus, is the Way, the Truth and the Life.



Y Gwir Barchg Andy John
Esgob Bangor

The Rt Revd Andy John
Bishop of Bangor



**Esgobaeth
Bangor**
The Diocese
of Bangor

Llwybr Deiniol

Addoli, tyfu a charu

St Deiniol's Way

Worshipping, growing and loving

Fel Cristnogion, fe'n gelwir i ddilyn Iesu Grist, ein Llwybr, y Gwirionedd a'r Bywyd. Fel Cristnogion yn Esgobaeth Bangor, rydym wedi ymrwymo i dair egwyddor sylfaenol y credwn ddylai nodweddu ein bywyd ar y cyd fel disgyblion. Gellir crynhoi'r rheini yn yr ymadroddion 'addoli Duw', 'tyfu'r Eglwys' a 'caru'r byd'.

Mae addoli Duw'n ymwneud â'n holl berthynas â Duw, o weddi breifat bersonol i addoli cyhoeddus cynulleidfaol. Dyma'r sail y saif ein ffydd arni a thrwy'r berthynas honno y gall ein ffydd dyfu a dyfnhau. Mae gweddi'n cynnwys ein holl gyfathrebu â Duw, nid yn unig yn yr eglwys ar y Sul, ond lle bynnag y byddwn unrhyw adeg unrhyw ddydd. Gall fod yn ymateb i eiriau ysgrifenedig – gweddiâu pobl eraill neu rannau o'r Beibl neu destunau ysbrydoledig eraill – a gallwn fynegi'n gweddiâu yn ein geiriau ysgrifenedig ein hunain. Gall fod yn ymateb o'r galon o sylweddoli'n annisgwyl brydferthwch y greadigaeth, neu wrth geisio heddwch a chyfiawnder. Gall fod yn gwbl ddistaw, boed ar ein pen ein hunain neu yng nghwmni eraill. Nid oes terfyn ar y ffyrdd y gallwn weddi'o i Dduw a'i addoli.

As Christians, we are called to follow Jesus Christ, who is the Way, the Truth and the Life. As Christians in the Diocese of Bangor, we are committed to three essential principles that we believe should characterise our common discipleship. These are summarized in the phrases 'worshipping God', 'growing the Church' and 'loving the world'.

Worshipping God concerns our whole relationship with God, from personal private prayer to full-blown public worship. It is the foundation upon which our faith rests, and the means whereby it is enabled to grow and deepen. Prayer is all our conversation with God, not only in church on a Sunday, but wherever we are throughout each and every day. It may be a response to written words – the prayers of others, passages from the bible or other inspirational writings, and it may be expressed by using our own written words. It may be a heartfelt outpouring upon being suddenly touched by the beauty of creation, or a seeking after peace and justice. It may be completely silent, whether we are alone or in the company of others. There is no end to the number of ways in which we can pray to and worship God.

Mae tyfu'r Eglwys yn ymwneud â'r math o ddisgyblion ydym a sut yr ydym yn ymddwyn fel disgyblion. Gelwir pob un o ohonom i fod yn ddisgybl i Grist, i gynyddu'n gwybodaeth ynghylch llwybrau Duw ac i adeiladu Corff Crist, sef yr Eglwys. Fe'n gelwir gan Dduw i ystyried a darganfod sut allwn gynnig ein hamser a'n doniau i'r Eglwys. Yn ogystal â'r weinidogaeth ordeiniedig a gweinidogaethau trwyddedig ac wedi'u comisiynu, mae yna ddigonedd o dasgau a allai ymddangos yn ddigon cyffredin y byddai twf yr Eglwys yn amhosibl hebddynt – cadw'r adeilad yn lân a thaclus tu mewn ac allan, paratoi lluniaeth, croesawu newydd-ddyfodiaid cyn ac ar ôl y gwasanaethau ac, efallai'n bwysicaf oll, cadw twf yr Eglwys yn ganolog i'n gweddïau.

Mae caru'r byd yn ymwneud â'n hymwybyddiaeth o'r greadigaeth gyfan – gan gynnwys holl bobl Dduw. Gellir adnabod gwir ddisgyblion drwy eu rhoi diflino a'u hagwedd hael. Fe'n gelwir i geisio ffyrdd i gynnal yr adnoddau cyfoethog mae'r ddaear yn eu darparu drwy ofalu am yr amgylchedd ac ymdrechu i sicrhau masnach deg i bawb. Fe'n gelwir hefyd i groesawu amrywiaeth yr hil ddynol – i wrando, i ddirnad anghenion pobl eraill ac i arfer lletygarwch, yn lleol a ledled y byd – fel y gall pawb, o ba bynnag hil neu genedl a beth bynnag fo'u cefndir addysgol, cymdeithasol neu grefyddol, gael y cyfle i fyw i'r eithaf mewn heddwch a diogelwch.

Growing the Church concerns the nature of our discipleship and the ways in which we practise it. Each of us is called to be a disciple of Christ, to increase our knowledge and love of God's ways, and to build up the Body of Christ, which is the Church. God calls us to explore and discover how we can offer our time and gifts to the Church. In addition to the ordained, licensed and commissioned ministries, there are any number of seemingly-mundane tasks without which the growth of the Church would be a non-starter – keeping the building clean and presentable inside and out, preparing refreshments, welcoming newcomers before and after the services, and, perhaps most important of all, making the growth of the Church central to our prayers.

Loving the world concerns our awareness of all creation – including all of God's people. True disciples can be recognised by their selfless acts of giving and their generous attitudes. We are called to seek ways of sustaining the rich resources the earth provides by caring for the environment and by striving to secure fair trade for all. We are also called to welcome the diversity of the human race – to listen, to acquaint ourselves with the needs of others and to show hospitality, both locally and globally – so that everyone, regardless of race, nationality, educational, social or religious background, may be given the opportunity to flourish in peace and safety. Above all, we are called to share with others the love shown to us by our Lord and Saviour Jesus Christ, and to bring them closer to the one who gathered the whole of creation to himself on the Cross and redeemed the world by his love.



Uwchlaw popeth, fe'n gelwir i rannu ag eraill y cariad a ddangoswyd atom ninnau gan ei Harglwydd a'n Gwardwr Iesu Grist, ac i ddod ag eraill yn agosach at yr Un a gofleidiodd yr holl greadigaeth ar y Groes ac a ddaeth â iachawdwriaeth i'r byd drwy ei gariad.

Er mwyn dathlu cydblethu'r tair nodwedd uchod o'r ffydd Gristnogol, mae angen i ni sicrhau bod ein bywydau'n wedi'u gwreiddio mewn gweddi a myfyrdod ac yn bwydo arnynt. Mae'r hanes ysgrythurol am Iesu'n ymweld â chartref Mair a Martha (Luc 10:38-42) yn ein hatgoffa, os ydym i dyfu a dysgu, bod angen i ni weithiau ymneilltuo oddi wrth gofynion a straen bywyd beunyddiol fel y gallwn ninnau hefyd eistedd a gwrando'n dawel ar air Duw.

Nod Llwybr Deiniol yw cynnig ffordd i ni oll ddod yn bobl sy'n talu sylw i Dduw, gan gadw cydbwysedd yn ein bywydau beunyddiol rhwng gwaith a gorffwys, rhwng gwneud a bod.

To enable the interweaving of these three important markers of the Christian faith, we need to ensure that our lives are grounded and nurtured by prayer and reflection. The Gospel story of Jesus visiting the home of Mary and Martha (Luke 10:38-42) reminds us that, if we are to grow and learn, we sometimes need to step away from the demands and stresses of daily life so that we too can sit and listen quietly to the word of God.

St Deiniol's Way seeks to offer a means whereby we can all become God's attentive people, striking a balance in our day-to-day lives between busyness and restfulness, between times of doing and times of simply being.



Llwybr Deiniol

Myfyrdod a chydbwysedd

St Deiniol's Way

Reflection and balance

Fel Cristnogion, fe'n gelwir i addoli, tyfu a charu ym mhob agwedd o'n bywydau beunyddiol; ond sut ydym i sicrhau cydbwysedd rhwng ein gweithgareddau bob dydd a'n amser gweddi a'n hymrwymiad i'r Eglwys?

Mae byw mewn ffordd sy'n ffyddlon i Dduw yn golygu ceisio'n weddïgar ffordd o sicrhau bod ein bywydau'n cynnwys popeth sy'n bwysig i ni: ein gwaith, ein teuluoedd, ein cyfeillion, ein hamser hamdden, y gymuned o'n cwmpas, a'n haddoli, boed ar ein pen ein hunain neu fel aelod o gynulleidfa.

Dychmygwch glorian hen ffasiwn. Byddid yn gosod pwysau ar un ochr a mesur y cynhwysion yn ofalus ar yr ochr arall. Roedd yn hawdd iawn tywallt gormod, neu rhy ychydig. Byddai'n rhaid i'r pwysau a'r cynhwysion gydbwyso'n berffaith er mwyn dilyn y rysâit yn llwyddiannus.

Mewn ffordd debyg, mae angen i ninnau geisio cydbwysedd perffaith yn ein bywydau ninnau. Gallai bod â gormod o bwysau ar y naill ochr neu'r llall arwain at orweithio, straen ac afiechyd. Gallwn fel arfer fyw gyda chydbwysedd llai na pherffaith yn y tymor byr, ond nid yn yr hirdymor.

As Christians we are called to worship, grow and love in every part of our daily lives; but how do we balance our day-to-day activities with times of prayer and a commitment to the Church?

To live in a way that is true to God is to seek prayerfully a way of ensuring that our lives include everything that is important to us: our work, our families, our friends, our leisure time, the community around us, and our worship, both solitary and in a gathered congregation.

Imagine an old fashioned set of scales. Weights would be placed at one end and the ingredients carefully measured out at the other end. It was very easy to put in too much, or too little. The weights and the ingredients needed to be in perfect balance if the recipe was to be successful.

In a similar way, we need to seek a perfect balance in our lives. Having too heavy a weight at either end could result in pressures leading to overwork, stress and ill health. We can usually manage a less-than-perfect balance in the short term, but not in the long term.

Un ffordd i addoli, tyfu a charu yng ngras Duw yw treulio ychydig amser yn adolygu'n weddigar batrwm a rhythm ein bywydau beunyddiol. Lle, a chyda phwy, ydyn ni'n treulio gormod o amser? Lle, a chyda phwy, ydyn ni'n treulio rhy ychydig o amser?

O draddodiad Bened Sant (c.480-c.543) daw'r syniad am Reol Bywyd. Cyflwynodd i'w fynachod Reol drwy'r hon y rhannai â hwy restr o ofynion a fyddai'n sicrhau harmoni a heddwch yn y fynachlog. Dros y blynyddoedd, lluniwyd llawer o amrywiadau ar y Rheol – ar gyfer cymunedau mynachaid i ddynion a merched, ac ar gyfer pobl nad ydynt yn byw mewn cymunedau mynachaid ond sy'n byw drwy ras Duw. Mae'r 'Rheol' hon yn eu cynorthwyo i gadw'u golwg ar Dduw ac ar alwad Duw ar eu cyfer yn eu bywydau beunyddiol. Mae o gymorth hefyd i sicrhau cydbwysedd da rhwng bywyd o waith, gweddi a hamdden.

Mae Llwybr Deiniol yn defnyddio elfennau o'r cerrynt a'r traddodiadau hyn, gan gynnig ffordd o fyfyrion ynghylch ein bywydau ac anelu at sicrhau cydbwysedd iach: ceisio ffordd o fyw sy'n dod â ni'n agosach at Iesu Grist, ein Llwybr, y Gwirionedd a'r Bywyd. Gall y gair 'Rheol' awgrymu rhywbeth y mae'n rhaid ufuddhau iddi heb ei thorri byth, rhywbeth gosodedig a digyfnwied. Nid yw Llwybr Deiniol yn gweithio'n union felly. Fe'i bwriedir i alluogi pob un ohonom i fyfyrion ynghylch ffordd o fyw a allai wella neu gyfoethogi'r lle y mae Duw wedi'n galw iddo heddiw.

One way to worship, grow and love in the grace of God is to spend a little time prayerfully reviewing the pattern and rhythm of our day-to-day lives. Where, and with whom, do we spend too much time? Where, and with whom, do we spend too little time?

From the tradition of St Benedict (c.480-c.543) comes the idea of a Rule of Life. He presented his monks with a Rule through which he shared with them a set of regulations that would ensure harmony and peace in the monastery. Over the years many variations have been written – for monastic communities of men and women, and for those who do not live in monastic communities but seek to live in the grace of God. This 'Rule' helps them to keep their focus upon God, and God's call to them in their daily lives. It also helps to provide a foundation for a well balanced life of work, prayer and recreation.

St Deiniol's Way draws on these traditions and currents, offering us a way of reflecting on our lives and aiming at a proper balance: seeking a way of life that brings us closer to Jesus Christ, who is the Way, the Truth and the Life. The word 'Rule' may suggest something that has to be kept and never broken, something that is fixed and written in stone. St Deiniol's Way is not quite like that. It is designed to enable each of us to explore a way of living that might enhance or enrich the time and place to which God has called us today.

Mae Llwybr Deiniol yn galw ar bob hun ohonom, yn bersonol, i feddwl yn ofalus am rai o elfennau sylfaenol y bywyd Cristnogol ac i wneud rhai ymrwymadau sylfaenol sy'n gydnaws â'n patrwm a'n trefn ddyddiol. Gobeithir y bydd Llwybr Deiniol yn ddigon heriol i annog gweddi ac i ddyfnhau ein hymroddiad fel disgyblion, ond y bydd ar yr un pryd yn ddigon realistig fel y gallwn roi'r ddisgyblaeth o'r neilltu dros dro, heb ei cholli'n llwyr, pan gwyd sefyllfaoedd anodd sydd y tu hwnt i'n rheolaeth, megis afiechyd neu ofynion ychwanegol yn y cartref, y gwaith neu'r eglwys.

St Deiniol's Way invites each of us, personally, to think through some foundational elements of the Christian life and to make some fundamental commitments that fit in with own daily pattern and routine. It is hoped that St Deiniol's Way will be challenging enough to encourage prayer and a deepening of discipleship, but will at the same time be realistic enough to withstand being temporarily set aside when adverse circumstances arise that are beyond our control – ill health, for example, or extra commitments at home, at work or in church.



Llwybr Deiniol Y gymuned ac ysbrydolrwydd Cymreig

St Deiniol's Way Community and Welsh spirituality

Roedd llawer o'r mathau cynnar o ysbrydolrwydd Cymreig yn seiliedig ar fyw mewn cymuned, yn arbennig drwy'r bywyd mynachaid.

Roedd y cymunedau hyn yn cynnwys pobl a oedd yn byw y tu hwnt i furiau'r mynachlogydd. Nod y traddodiad oedd i alluogi pawb a oedd am fyw y bywyd Cristnogol i ddod yn debycach i Grist.

Yn ddiwinyddol, ac mewn gweddïau a barddoniaeth, roedd y pwyslais ar gydberthynas y Drindod Sanctaidd, y Duw sy'n Un ac eto'n Dri: Duw mewn cymuned. Bu'r cefndir Celtaidd o gymorth i wreiddio themâu'r Drindod a chymuned o fewn y greadigaeth a, drwy'r ymgnawdoliad, o fewn y corff dynol. Mae penyd hefyd yn rhan o'r traddodiad ysbrydol Cymreig, fel y gellir gweld, er enghraifft, yn Llyfr Du Caerfyrddin a thestunau cynnar eraill, megis gwaith Gildas. Roedd penyd yn ganolog i drawsnewid y corff a'r enaid – troi o'n cwmpas i ddechrau o'r newydd mewn perthynas gynyddol ddofn â Duw.

Much of early Welsh spirituality was founded upon the idea of living in community, particularly through the monastic life.

These communities included those who lived outside the monastic walls. The monastic tradition was to enable all those who sought the Christian life to become more Christ-like.

Theologically, and within prayer and poetry, the emphasis was upon the inter-relatedness of the Holy Trinity, the God who is One yet Three: God in community. The Celtic heritage helped to ground the themes of the Trinity and of community within creation, and, through the incarnation, within the human body. Penance is also a part of the Welsh spiritual tradition, as can be seen, for example, in the Black Book of Carmarthen and other early writings such as those of Gildas. Penance was integral to the transformation of the body and soul – a turning around to begin anew in an ever deepening relationship with God.

Ers dyddiau disgyblion Iesu, drwy adeg dyfodiad Cristnogaeth i'r ynysoedd hyn a hyd at heddiw, bu Duw yn galw pobl i addoli, i dyfu ac i garu mewn ffydd a llawenydd. Gofynnodd y disgyblion i Iesu eu dysgu sut i weddio (Luc 11:1-4). Roedd dilynwyr cynnar Iesu'n ceisio canfod y ffordd orau i gyd-fyw mewn cariad a heddwch Cristnogol. Canfu rhai'r ateb yng ngwaith arferol bywyd; ceisiodd eraill unigedd; a daeth eraill ynghyd mewn cymunedau mynachaid.

Mae pawb sy'n Gristnogion, yn cynnwys ni ein hunain, yn ceisio presenoldeb a gras Duw yn ein bywydau. Fe'n gelwir i dderbyn cyfoeth cariad Duw, i fwyta wrth fwrdd Duw, i glywed llefaru gair Duw, ac i gyhoeddi'r Efengyl yn lleoedd rydym yn gweithio a'r lle rydym yn byw, gan alw eraill i ymuno â ni i geisio perthynas ddyfnach â Duw, y Drindod Sanctaidd.

Yr ydym oll yn fodau unigryw a bregus, ac yn ein dynoliaeth yr ydym yn agored i gael ein temptio, i weithio'n rhy galed neu i beidio â gweithio'n ddigon caled, i roi gormod neu ddim digon. Mae bywyd yn y byd heddiw yn swnllyd a llawn rhuthr, sy'n golygu ei bod yn bwysicach fyth i ni archwilio patrwm a rhythm ein bywydau beunyddiol yng nghyswllt ein ffydd Gristnogol a'n perthynas bersonol â Duw, gyda'n gilydd a'r greadigaeth oll. Mae'r alwad i addoli, i dyfu ac i garu yng ngras Duw yn wahoddiad i ddyfnhau ein ffydd trwy rannu pryd, y Cymun, yn y gynulleidfa gyda'i gilydd neu gartref, ond mae'n wahoddiad hefyd i rannu gydag eraill Newydd Da Iesu.

From the time of Jesus' disciples, through the coming of Christianity to our shores and up to the present day, we have been called by God to worship, to grow and to love in faithfulness and joy. The disciples asked Jesus to teach them how to pray (Luke 11:1-4). The early followers of Jesus wondered how best to live in community with one another in Christian love and peace. Some found the answer in the usual work of their lives; some sought solitude; and others came together in monastic communities.

All Christians, ourselves included, have in common the fact that we seek the presence and grace of God in our lives. We are called to receive the abundance of God's love, to feed at God's table, to hear God's word spoken, and to take the Gospel out to where we work and the places where we live – calling others to join us in seeking a deeper relationship with God, the Holy Trinity.

We are all unique and vulnerable beings, and in our humanity we are prone to be tempted, to work too hard or not to work hard enough, to give too much or too little. Life in the world today is noisy and rushed, which makes it all the more important that we should examine the pattern and rhythm of our day-to-day lives with regard to our Christian faith and our personal relationships with God, with one another and with all creation. The call to worship, to grow and to love in the grace of God is an invitation to deepen our faith by sharing a meal, the Eucharist, in the gathered congregation or at home, but it is also an invitation to share with others the Good News of Jesus.



I wneud hyn oll, a mwy, rhaid i ni gael cydbwysedd da mewn bywyd, cydbwysedd fydd yn ein galluogi i weld yn gliriach y gwahanol alwadau ar ein hamser yn y fath fodd fel ag i wneud yn siwr na fyddwn yn cael ein gorlwytho. Gall rhai o seintiau Cymru roi i ni ysbrydoliaeth a chyfarwyddyd wrth i ni ystyried yn weddïgar sut y gall pob un ohonom geisio gwell cydbwysedd yn ein bywydau.

To do all of this, and more, means that we need to have a good balance in life, a balance that will help us to see more clearly the various demands upon our time in such a way as to ensure that we do not become overburdened. Some of the Saints of Wales can provide us with inspiration and guidance as we consider prayerfully how each of us can seek a better balance to our lives.



Gweddi Llwybr Deiniol

The St Deiniol's Way prayer

Dduw gras,
 gelwaist arnaf i ddilyn yn ôl traed
 y disgyblion cynnar a'r seintiau,
**i fyw bywyd mewn gwir
 gydbwysedd daioni,
 i weddïo bob dydd a rhannu
 yn fy ffordd fy hun**
**dy gariad di dros yr holl bobl,
 yr holl greadigaeth.**
 Trwy dy gariad a'th ras,
 a thrwy esiampyl Deiniol Sant,
**helpa fi i fod yn ffyddlon
 mewn gweddi, yn fy ngwaith,
 ac wrth orffwyso,**
**yn yr oriau prysur a'r
 manau tawel,**
 fel y gallaf dy addoli,
 fel y bydd i'th Eglwys dyfu,
 ac fel y bydd i'th gariad gofleidio
 ac iachau ein byd toredig.

Amen.

God of grace,
 you have called me to follow in
 the steps
 of the early disciples and saints,
**to live a life in true balance
 of wellbeing,**
**to pray each day and share in
 my own way**
**your love for all people,
 all creation.**
 By your love and grace,
 and through the example of
 St Deiniol,
**help me to be faithful in my
 prayer, in my work, and in my
 times of rest,**
**in the busy hours and in the
 quiet spaces,**
 so that I may worship you,
 so that your Church may grow,
 and so that your love may embrace
 and heal our broken world.

Amen.

Sut i ddefnyddio'r llyfr hwn

How to use this book

Ymrwymo i Lwybr Deiniol

(tud. 20-49)

Mae'r rhan hwn o'r llyfr yn gymorth i chi edrych ar eich bywyd.

Neilltuwch beth amser pan fedrwnch fod yn llonydd ac yn dawel gyda Duw. Gofynnwch i Dduw fod gyda chi mewn cariad, doethineb a deall.

Darllenwch yn araf trwy bob adran, un ar y tro.

Darllenwch drwy'r cwestiynau. Cymerwch eich amser gyda phob un, ac yna ysgrifennu eich ymatebion. Bydd y rhain yn ffurfio eich 'Llwybr Deiniol' personol eich hun ac yn adeiladu ar unrhyw 'Reol' neu 'Lwybr' y gallwch eisoes fod yn ceisio byw yn ei ôl.

'I'ch llygaid chi yn unig' y mae'r ymatebion hyn, er y gallwch fod eisiau eu rhannu gyda'ch cyfarwyddwr ysbrydol os oes gennych un.

Mae angen i'ch ymrwymiadau fod yn realistig, gan gydnabod y cyfyngiadau sy'n cael eu gosod gan amgylchiadau eich bywyd beunyddiol, ond mae angen hefyd iddynt fod yn ddigon heriol i'ch ymestyn a'ch helpu i dyfu mewn ffydd.

Ni fydd eich ymrwymiadau yn 'Llwybr' am oes gyfan, ond bydd angen eu hadolygu o bryd i'w gilydd wrth i'ch amgylchiadau eich hun newid.

Committing to St Deiniol's Way

(pages 20-49)

This part of the book is to help you look at your life.

Set some time aside when you can be still and quiet with God. Ask God to be with you in love, wisdom and understanding.

Read slowly through each section, one at a time.

Read through the questions. Take time with each, and then write down your responses. These will form your own personal 'St Deiniol's Way' and build upon any 'Rule' or 'Way' by which you may already be trying to live.

These responses are 'for your eyes only', though you may wish to share them with your spiritual director if you have one.

Your commitments need to be realistic, recognising the limitations imposed by the circumstances of your day-to-day life, but they also need to be sufficiently challenging to stretch you and help you grow in faith.

Your commitments will not constitute a 'Way' for a whole lifetime but will need to be reviewed periodically as your own circumstances change.

Gweddïau Dyddiol Llwybr Deiniol

(tud. 50-104)

Gallwch weddio'r gweddïau dyddiol ar unrhyw adeg o'r dydd, ond y maent fwyaf addas i'w defnyddio yn y bore.

Pe dymunwch, gallwch gynnwys y darlenniadau beiblaidd o'r Lithiadur a osodwyd am y dydd yn lle'r detholiadau a awgrymir.

Medrwch ddefnyddio'r gweddïau dyddiol hefyd ochr yn ochr â nodiadau darllen y Beibl neu'r llyfryn esgobaethol ar gyfer Adfent a'r Grawys.

Gallwch weddio'r gweddïau dyddiol yn gyflym a syml pan fo angen, neu gallwch dreulio cyfnodau hwy o fyfyrto tawel ar ôl pob rhan o'r litwrgi.

Medrwch ddefnyddio Gweddi Seml Gyda'r Nos (tud. 94-99) a Gweddi Seml yn y Nos (tud. 100-104) bob dydd hefyd.

Ail-ysgrifennwyd rhai o'r salmau i'w defnyddio fel rhan o'r gweddïau dyddiol.

Gan y bydd y rhan fwyaf o bobl yn defnyddio'r llyfryn pan fyddnat ar eu pennau eu hunain, mae'r gweddïau dyddiol oll wedi eu hysgrifennu yn y person cyntaf, ond gellir eu defnyddio mewn grwpiau hefyd trwy newid 'fi' i 'ni', a 'fy' i 'ein'. Mewn sefyllfaoedd grŵp, gall gwahanol rannau gael eu harwain gan wahanol bobl.

The Daily Prayers of St Deiniol's Way

(pages 50-104)

The daily prayers can be prayed at any time of the day but are best suited for use in the morning.

If you wish, you can include the Lectionary Bible readings set for the day in place of the passages suggested.

The daily prayers can also be used along with Bible reading notes or the diocesan booklet for Advent and Lent.

The daily prayers can be prayed quickly and simply when needed, or you can spend longer periods of quiet reflection after each part of the liturgy.

The Simple Evening Prayer (pages 94-99) and Simple Night Prayer (pages 100-104) can also be used daily.

The psalms have all been slightly re-written for use as part of the daily prayers.

Since most people will use the booklet when they are alone, the daily prayers are all written in the first person, but they can also be used in groups simply by changing 'I' to 'we', 'me' to 'us' and 'my' to 'our'. In group settings, different parts can be led by different people.

Syniadau cyffredinol am weddiâu dyddiol

Lle a phryd?

Lle byddwch chi'n defnyddio'r gweddiâu dyddiol yn y llyfr hwn? Dewch o hyd i le yn eich cartref i fod yn fangre gweddi i chi. Er y gall fod yn cael ei ddefnyddio ar adegau eraill, mae mynd i'r lle hwnnw yn benodol i weddio yn ei wneud yn fangre sanctaidd.

Chi yn unig wŷyr yr amser o'r dydd fydd hawsaf i chi ei neilltuo ar gyfer gweddi, ond mae'n syniad da, os oes modd, ei wneud yn amser rheolaidd. Fel arall y mae'n rhy hawdd o lawer ei ohirio nes 'i ni deimlo fel gwneud.'

Efallai y bydd yn fuddiol cael llyfr nodiadau a phensel gyda chi, i nodi unrhyw beth sy'n teimlo'n bwysig neu nad ydych am ei anghofio.

Ar derfyn yr amser gweddi, myfyriwch ar sut deimlad oedd gweddio, sut y gwnaethoch deimlo neu beidio bresenoldeb Duw gyda chi, a phopeth a all fod wedi ei ddatgelu i chi yn y weddi honno.

Yn bwysicaf oll, mwynhewch yr amser hwn o weddio, am mai dyma'r amser y cewch eich tynnu i gymuned y Drindod Sanctaidd.

Darllen y Beibl

Mae modd darllen y detholion o'r Beibl a'r salmau mewn llawer ffordd wahanol.

Peidiwch â rhuthro drwyddynt, ond darllen drwyddynt yn araf.

Ar adegau, fe allwch deimlo bod angen eu darllen fwy nag unwaith.

Wrth i chi ddarllen, a oes gair neu ymadrodd sy'n ymddnagos yn arbennig o bwysig i chi? Os felly, arhoswch gyda'r gair neu'r ymadrodd hwnnw, gan ei ailadrodd yn araf nes i chi deimlo'n

General ideas on daily prayer

Where and when?

Where will you use the daily prayers in this book? Find a space in your home to be your place for prayer. Even though it may be used at other times, going to that place specifically for prayer makes it a sacred space.

Only you will know the time of day that you will most easily be able to set aside for prayer, but it is a good idea, as far as possible, to make it a regular time. Otherwise it is all too easy for us to put it off until we 'feel like it'.

It may be helpful to have a notepad and pencil with you, to jot down anything that feels important or that you do not wish to forget.

At the end of a time of prayer, reflect upon how praying in that way felt, how you did or didn't sense the presence of God with you, and all that may have been revealed to you in that prayer.

Most importantly, enjoy this time of prayer, for this is the time you are drawn into the community of the Holy Trinity.

Reading the Bible

The Bible passages, and the psalms, can be read in many different ways.

Do not rush through them, but read them slowly.

At times you may feel the need to read them more than once.

As you are reading, is there a word or phrase that seems particularly important to you? If so, stay with that word or phrase, repeating it slowly until you feel ready to move on.

barod i symud ymlaen. Ystyriwch pam ei fod yn ymddangos yn bwysig, beth ddywedodd wrthyhych am Dduw, neu am eich bywyd eich hun. Gwnedwch nodyn o'r peth mewn dyddlyfr.

Gall y darn yr ydych yn ei ddarllen eich gwahodd i ddo i mewn yn eich dychymyg i'w stori. Dychmygwch yr olygfa, y bobl, y lliwiau, golygfeydd a'r synau, y distawrwydd a'r sgysiau. Beth yw eich rhan chi yn y stori hon? Gwnewch nodyn ohono yn eich dyddlyfr.

Cadw dyddlyfr

Y cyfan sydd ei angen yw llyfr nodiadau a phensel. Pwrpas cael dyddlyfr gweddi yw nodi geiriau, ymadroddion neu feddyliau sy'n dod i'r amlwg mewn gweddi ac yr ydych chi am eu cofio. Efallai yr hoffech gofnodi sut y buoch yn gweddïo – trwy ddenfyddio geiriau, boed hwy yn eiriau eich hun neu rai eraill, mewn tawelwch neu trwy ddenfyddio darlenniad o'r Beibl. Mae'n syniad da hefyd nodi sut yr oeddech yn teimlo wrth weddïo, a pha mor agos oedd Duw atoch chi.

Mae cadw dyddlyfr yn debyg i ysgrifennu dyddiadur, ac fel gyda dyddiadur does dim angen ysgrifennu brawddegau cyflawn, gofalus. Nodwch yn eich ffordd eich hun y munudau arwyddocaol, munudau y gallwch fod eisiau gweddïo gyda hwy rhywbryd eto. Gall edrych yn ôl dros ddyddlyfr ddangos i ni sut y mae gweddi wedi ffurfio ein bywydau ac yn aml yn ein synnu trwy ddatgelu themâu cyffredin y gall fod angen i ni feddwl mwy amdanynt.

Peth preifat yw dyddlyfr, ond os ydych yn teimlo bod rhywbeth y carech siarad yn ddyfnach amdano, gofynnwch am siarad â chyfaill, neu un o'r clerigion, neu gyfarwyddwr ysbrydol – rhywun sy'n brofiadol mewn gwrando a helpu pobl tuag at ddealltwriaeth ddyfnach o Dduw yn eu bywydau.

Ponder over why it seemed important, what it said to you about God, or about your own life. Make a note of it in a journal.

The passage you read may invite you to enter imaginatively into its story. Imagine the scene, the people, the colours, sights and sounds, the silences and the conversations. What is your part in this story? Make a note of it in your journal.

Keeping a journal

All that is needed is a notebook and a pen or pencil. The idea of a prayer journal is to note down words, phrases or thoughts that come to you during prayer and that you want to remember. You may want to record how you prayed – by using words, whether they were your own words or someone else's, in silence or by using a Bible reading. It is also a good idea to make a note of how you felt while praying, and how close God was to you.

Keeping a journal is like writing a diary, and as with a diary there is no need to write carefully constructed sentences. Simply jot down in your own way the significant moments, moments which you may want to pray with at another time. Looking back over a journal can show us how prayer has shaped our lives and often surprises us by revealing common themes that we may need to give further thought to.

A journal is private, but if you feel that there is something you would like to talk more deeply about, ask to speak to a trusted friend, to one of the clergy or to a spiritual director – a person who is experienced in listening and helping people towards a deeper understanding of God in their lives.

**Ymrwymo i
Lwybr Deiniol
Committing to
St Deiniol's Way**



Mae saith elfen i'n helpu a'n tywys wrth ddilyn Llwybr Deiniol, ac y maent oll yn gysylltiedig â'i gilydd.

- ◆ Gweddïo ac addoli
- ◆ Gweithio a dysgu
- ◆ Tyfu ac ymwybyddiaeth
- ◆ Rhannu ein ffydd
- ◆ Caru ein cymydog
- ◆ Gorffwyso ein cyrff
- ◆ Casglu ein hunain

There are seven elements to help and guide us in following St Deiniol's Way, and each one is connected to all the others.

- ◆ Praying and worshipping
- ◆ Working and learning
- ◆ Growing and awareness
- ◆ Sharing our faith
- ◆ Loving our neighbour
- ◆ Resting our bodies
- ◆ Gathering our selves



Gweddïo ac addoli

Praying and worshipping

Wrth i ni ddilyn Llwybr Deiniol, yr ydym yn myfyrio ar bwysigrwydd gweddïo ac addoli. Wrth wneud hynny, gallwn ddwyn i gof esiamp Dewi Sant.

Yr oedd Dewi Sant, nawddsant Cymru, yn ddysgawdwr a phregethwr o fri, a sefydlodd ac arweiniodd y gymuned fynachaid yng Nglyn Rhosyn, y safle lle saif Cadeirlan Tyddewi yn awr. Yr oedd yn hyrwyddo bywyd syml, gan ddweud wrth ei ddilynwyr, 'Byddwch lawen, cadwch y ffydd a gwnewch y pethau bychain a welsoch ac a glywsoch gennyf i.' Yr oedd yn credu fod y ffordd syml hon o fyw yn canaiatau i ni ganolbwyntio ar Dduw mewn gweddi. Wrth bregethu yng nghanol tyrfa fawr yn Synod Brefi, y chwedl yw i'r tir yr oedd yn sefyll arno godi i ffurfio bryncyn bychan, a gwelwyd colomen wen yn glanio ar ei ysgwydd.

As we follow St Deiniol's Way, we reflect on the importance of praying and worshipping. In doing so, we call to mind the example of St David.

St David, the patron saint of Wales, was a renowned teacher and preacher, founding and leading the monastic community in Glyn Rhosyn, on the site of which St David's Cathedral now stands. He promoted a life of simplicity, telling his followers to 'be joyful, and keep your faith and your creed, and do the little things that you have seen me do and heard about.' He believed that this simple way of life allowed us to focus on God in prayer. Preaching in the middle of a large crowd at the Synod of Brefi, the ground on which he stood is reputed to have risen up to form a small hill, and a white dove was seen settling on his shoulder.

**Dduw ein Tad,
rhoddaist Dewi Sant i bobl
Cymru, i gynnal y ffydd:**
wedi ein hannog gan ei esiampl,
**bydded i ni lynu'n llawen wrth
y pethau sy'n arwain at fywyd
tragwyddol;**
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
**y byddo'r holl anrhydedd a
gogoniant,**
yn awr ac am byth.
Amen.

**God our Father,
you gave Saint David to the
people of Wales to uphold
the faith:**
encouraged by his example,
**may we joyfully hold fast
to the things which lead to
eternal life;**
through Jesus Christ our Lord,
to whom with you and the
Holy Spirit
**be all honour and glory,
now and for ever.**
Amen.

Ffyrdd o ymrwymo i weddio ac addoli yn ôl troed Dewi Sant

- ♦ Treuliwch amser bob dydd mewn gweddi, o leiaf ddeng munud, ac amser i ddarllen y Beibl.
- ♦ Cymerwch ran mewn addoliad bob wythnos gyda chymuned ehangach eich eglwys.
- ♦ Treuliwch amser yn weddigar yn myfyrio ar alwad Duw i chi yng nghyd-destun eich bywyd.
- ♦ Darllenwch un neu ddau o lyfrau yn ystod y flwyddyn i ddyfnhau eich dealltwriaeth o'r ffydd Gristnogol.

Beth wnewch chi, a cheisio gwneud, mewn ymateb i'r egwyddorion hyn?

Defnyddiwch y gofod hwn i ysgrifennu meddyliau a syniadau ar gyfer eich 'Llwybr':

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Ways of committing to prayer and worship in St David's footsteps

- ♦ Spend time each day in prayer, at least ten minutes, and time to read the Bible.
- ♦ Take part in worship each week with the wider community of your church.
- ♦ Spend time prayerfully reflecting upon God's call to you within the context of your life.
- ♦ Read one or two books during the year to deepen your understanding of the Christian faith.

What will you do, and try to do, in response to these precepts?

Use this space to write down thoughts and ideas for your 'Way':

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....





Gyfeillion: Yr oeddem eisoes wedi dioddef ac wedi cael ein sarhau, fel y gwyddoch, yn Philipi, ond buom yn hy trwy nerth ein Duw i draethu i chwi Efengyl Duw, er mor galed oedd y frwydr. Oherwydd nid yw ein hapêl ni yn codi o gyfeiliornad, na chwaith o amhurdeb, ac nid oes ynddi dwyll; yn hytrach, fel y cawsom ein profi'n gymeradwy gan Dduw i gael ymddiried yr Efengyl inni, yr ydym yn llefaru fel rhai sy'n boddhau, nid meidrolion ond Duw, yr hwn sy'n profi ein calonnau. Oherwydd, fel y gwyddoch, ni buom un amser yn arfer geiriau gweniaith, na chwaith ffalster i gelu trachwant – fel y mae Duw'n dyst. Ac nid oeddem yn ceisio gogoniant gan bobl, gennych chwi na neb arall, er y gallasem, fel apostolion Crist, fod yn ddynton o bwys. Ond buom yn addfwyn yn eich plith, fel mamaeth yn meithrin ei phlant ei hun. Felly, yn ein hoffter ohonoch, yr oedd yn dda gennym gyfrannu i chwi, nid yn unig Efengyl Duw, ond nyhi ein hunain hefyd, gan i chwi ddod yn annwyl gennym. Fe wyddoch inni fod i bob un ohonoch fel tad i'w blant, gan apelio atoch, trwy eich annog a'ch rhybuddio i fyw yn deilwng o'r Duw sydd yn eich galw i'w deyrnas a'i ogoniant ei hun.

1 Thesalonïaid 2:2-8, 11-12

Brothers and sisters: Though we had already suffered and been shamefully maltreated at Philippi, as you know, we had courage in our God to declare to you the gospel of God in spite of great opposition. For our appeal does not spring from deceit or impure motives or trickery, but just as we have been approved by God to be entrusted with the message of the Gospel, even so we speak, not to please mortals, but to please God who tests our hearts. As you know and as God is our witness, we never came with words of flattery or with a pretext for greed; nor did we seek praise from mortals, whether from you or from others, though we might have made demands as apostles of Christ. But we were gentle among you, like a nurse tenderly caring for her own children. So deeply do we care for you that we are determined to share with you not only the gospel of God but also our own selves, because you have become very dear to us. As you know, we dealt with each one of you like a father with his children, urging and encouraging you and pleading that you should lead a life worthy of God, who calls you into his own kingdom and glory.

1 Thessalonians 2:2-8, 11-12

Gweithio a dysgu

Working and learning

Wrth i ni ddilyn Llwybr Deiniol, yr ydym yn myfyrio am bwysigrwydd gweithio a dysgu. Wrth wneud hynny, galwn i gof esiamp I Deiniol Sant.

Deuai teulu Deiniol Sant o ogledd Lloegr, ac y mae'n debyg iddo dreulio ei fywyd cynnar ym Mhowys a Sir Benfro. Chwiliodd yn gyntaf am Dduw trwy unigedd a bywyd myfyriol y meudwy, cyn teithio i ogledd-orllewin Cymru a gweithio'n egniol i sefydlu mynachdy mawr ar safle Cadeirlan Bangor heddiw. Yn 546, ef oedd Esgob cyntaf Bangor.

As we follow St Deiniol's Way, we reflect on the importance of working and learning. In doing so, we call to mind the example of St Deiniol.

St Deiniol's family descended from the north of England and it is likely that he spent his early life in Powys and Pembrokeshire. He first sought God through the solitude and reflective life of the hermit, before travelling to north-west Wales and becoming the energetic founder of a large monastery that stood on the present site of Bangor Cathedral. In 546, he became the first Bishop of Bangor.

Hollalluog Dduw,
**a ysbrydolaist dy esgob Deiniol
i gasglu o'i gwmpas gymuned
o Gristnogion**

i gyd-fyw bywyd cytun:

caniatâ i ni, sy'n anrhydeddu'r
cof amdano

weithio i atgyfnerthu teulu
dy Eglwys mewn ffydd, gobaith
a chariad;

**trwy Iesu Grist dy Fab ein
Harglwydd;**

**y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân
yr holl anrhydedd a gogoniant
yn awr ac am byth.**

Amen.

Almighty God,
**who inspired your bishop Deiniol
to gather around him
a community**

to live the common life:

grant that we, who honour
his memory,

may work to build up the family
of your Church in faith and hope
and love;

**through Jesus Christ your Son
our Lord;**

**to whom with you and the
Holy Spirit**

**be all honour and glory,
now and for ever.**

Amen.

Ffyrdd o ymrwymo i weithio a dysgu yn ôl troed Deiniol Sant

- ◆ Ceisiwch adnabod rhoddion a ffrwythau'r Ysbryd y gallwch eu cynnig i wasanaeth Duw.
- ◆ Adolygwch yn rheolaidd sut ac i ba raddau y mae eich ffydd Gristnogol yn rhan o'ch bywyd gwaith a bywyd eich cartref.
- ◆ Adolygwch yn rheolaidd y gwaith yr ydych yn gynnig ac y gallech gynnig yn eich eglwys.
- ◆ Byddwch yn rhan o grŵp trafod neu astudio, ac unrhyw gyrsiau hyfforddi cysylltiedig â ffydd a all fod yn briodol i chi.

Beth wnewch chi, a cheisio gwneud, mewn ymateb i'r egwyddorion hyn?

Defnyddiwch y gofod hwn i ysgrifennu meddyliau a syniadau ar gyfer eich 'Llwybr':

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Ways of working and learning in St Deiniol's footsteps

- ◆ Try to identify the gifts and fruits of the Spirit that you can offer in God's service.
- ◆ Review on a regular basis how and to what extent your Christian faith is a part of your working and home life.
- ◆ Review on a regular basis the work you offer and could offer in your church.
- ◆ Be a part of a study or discussion group, and any faith-related training course that might be appropriate for you.

What will you do, and try to do, in response to these precepts?

Use this space to write down thoughts and ideas for your 'Way':

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....





Yn y flwyddyn y bu farw'r Brenin Usseia, gwelais yr Arglwydd. Yr oedd yn eistedd ar orsedd uchel, ddyrchafedig, a godre'i wisg yn llenwi'r deml. Uwchlaw yr oedd seraffiaid i weini arno, pob un â chwech adain, dwy i guddio'r wyneb, dwy i guddio'r traed, a dwy i ehedeg. Yr oedd y naill yn datgan wrth y llall, 'Sanct, Sanct, Sanct yw Arglwydd y Lluoedd; y mae'r holl ddaear yn llawn o'i ogoniant.'

Ac fel yr oeddent yn galw, yr oedd sylfeini'r rhiniogau'n ysgwyd, a llanwyd y tŷ gan fwg. Yna dywedais, 'Gwae fi! Y mae wedi darfod amdanaf! Dyn a'i wefusau'n aflan ydwyf, ac ymysg pobl a'u gwefusau'n aflan yr wyf yn byw; ac eto, yr wyf â'm llygaid fy hun wedi edrych ar y brenin, Arglwydd y Lluoedd.' Ond ehedodd un o'r seraffiaid ataf, a dwyn yn ei law farworyn a gymerodd mewn gefel oddi ar yr allor; ac fe'i rhoes i gyffwrdd â'm genau, a dweud, 'Wele, y mae hwn wedi cyffwrdd â'th enau; symudwyd dy ddrygioni, a maddeuwyd dy bechod.' Yna clywais yr Arglwydd yn dweud, 'Pwy a anfonaf? Pwy a â drosom ni?' Atebais innau, 'Dyma fi, anfon fi.'

Eseia 6:1-8

In those days: In the year that King Uzziah died, I saw the Lord sitting on a throne, high and lofty; and the hem of his robe filled the temple. Seraphs were in attendance above him; each had six wings: with two they covered their faces, and with two they covered their feet, and with two they flew. And one called to another and said: 'Holy, holy, holy is the Lord of hosts; the whole earth is full of his glory.'

The pivots on the thresholds shook at the voices of those who called, and the house filled with smoke. And I said: 'Woe is me! I am lost, for I am a man of unclean lips, and I live among a people of unclean lips; yet my eyes have seen the King, the Lord of hosts!' Then one of the seraphs flew to me, holding a live coal that had been taken from the altar with a pair of tongs. The seraph touched my mouth with it and said: 'Now that this has touched your lips, your guilt has departed and your sin is blotted out.' Then I heard the voice of the Lord saying, 'Whom shall I send, and who will go for us?' And I said, 'Here am I; send me!'

Isaiah 6:1-8

Tyfu ac ymwybyddiaeth

Growing and awareness

Wrth i ni ddilyn Llwybr Deiniol, yr ydym yn myfyrio am bwysigrwydd tyfu ac ymwybyddiaeth. Wrth wneud hynny, galwn i gof esiampl Santes Melangell.

Santes Melangell yw nawddsant ecoleg ac iachau. Merch i frenin Gwyddelig ydoedd, a cheisiodd lonyddwch yng nghanolbarth Cymru, lle dywed y chwedl amdani fod ysgyfarnog oedd yn cael ei hela gan Frochwel Yscythrog, Tywysog Powys, wedi cael lloches dan ei mantell. Ar dir a dderbyniodd gan y tywysog, sefydlodd Melangell gymuned o ferched, yn byw bywyd syml mewn cytgorod â'r ddaear a'i anifeiliaid, a thyfu planhigion a llyisiau llesol ar gyfer iachau.

As we follow St Deiniol's Way, we reflect on the importance of growing and awareness. In doing so, we call to mind the example of St Melangell.

St Melangell is a patron saint of ecology and healing. The daughter of an Irish king, she sought solitude in mid-Wales, where her legend relates that a hare being hunted by Brochwel Yscythrog, Prince of Powys, sought sanctuary under her robe. On land received from the prince, Melangell founded a community of women, living a life of simplicity and harmony, in touch with the earth and its animals, and growing plants for healing.

**Dduw ein nerth,
amddiffynnydd y gwan,
ynot ti y caiff pechaduriaid
loches:**

caniatâ i ni sy'n parchu
coffadwriaeth Melangell

**bregethu efengyl maddeuant
a dod yn bobl y gall eraill
ymddiried ynddynt;**

trwy Iesu Grist dy Fab ein
Harglwydd,

yr hwn trwy'r Ysbryd a gyfodaist
i fywyd gyda thi,

ei Dduw a'i Dad,

yn oes oesoedd.

Amen.

**God our strength,
protector of the weak,
the one in whom sinners
find sanctuary:**

grant that we who revere the
memory of Melangell

**may preach the gospel of
forgiveness**

**and become people in whom
others may place their trust;**

through Jesus Christ your Son
our Lord,

whom by the power of the Spirit
you raised to live with you,

his God and Father,

now and for ever.

Amen.

Ffyrdd o ymrwymo i dyfu ac i ddyfnhau ymwybyddiaeth yn ôl troed Santes Melangell

- ◆ Ystyriwch sut y gallwch garu'r amgylchedd o'ch cwmpas yn well, efallai trwy ailgylchu, neu brynu cynnyrch lleol, neu trwy gefnogi masnach deg ac elusennau i'r rhai mewn angen ledled y byd.
- ◆ Ystyriwch y ffyrdd y gallech fyw bywyd symlach.
- ◆ Myfyriwch a gweddiwch am ardaloedd yn y byd sydd angen heddwch ac iachad.
- ◆ Myfyriwch a gweddiwch am bobl y gwyddoch chi sydd angen heddwch ac iachâd.

Beth wnewch chi, a cheisio gwneud, mewn ymateb i'r egwyddorion hyn?

Defnyddiwch y gofod hwn i ysgrifennu meddyliau a syniadau ar gyfer eich 'Llwybr':

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Ways of committing to growth and awareness in St Melangell's footsteps

- ◆ Consider how you can love the environment around you more, perhaps by recycling, or by buying local produce, or by supporting fair trade and charities for those in need across the world.
- ◆ Consider ways in which you could live a life of greater simplicity.
- ◆ Reflect upon, and pray for, areas in the world that are in need of peace and healing.
- ◆ Reflect upon, and pray for, people whom you know to be need of peace and healing.

What will you do, and try to do, in response to these precepts?

